**Tystiolaeth gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r adolygiad o opsiynau darpariaethau amgylcheddol.**

**Cefndir Comisiwn Coedwigaeth Cymru**

1. Y Comisiwn Coedwigaeth yw adran anllywodraethol drawsffiniol Prydain Fawr sy'n gyfrifol am gynghori Gweinidogion ynghylch polisïau coedwigaeth a gweithredu polisïau coedwigaeth. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn un o isadrannau gweinyddol y Comisiwn, ac yn gorff ar wahân i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn gyfreithiol.

2. Mae coedwigaeth yn faes datganoledig, a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig sy'n gyfrifol am weithgarwch y Comisiwn yng Nghymru. Mae CCC yn gweithredu fel Is-adran Coedwigaeth LlCC dan Goncordat y cytunwyd arno gyda'r Adran Materion Gwledig. Rôl CCC yw:

   - rhoi cefnogaeth a chyngor ar bolisïau i Weinidogion a swyddogion LlCC i sicrhau bod polisïau coedwigaeth yn cael eu cynnwys mewn elfennau perthnasol eraill ym mholisïau LlCC;
   - sicrhau bod coedwigoedd cenedlaethol Cymru yn cael eu rheoli mewn modd sy'n cyflawni'r amcanion a bennwyd gan Weinidogion LlCC yn y strategaeth *Coetiroedd i Gymru*;
   - rheoli'r adnoddau a ddarperir gan LlCC yn gyfrifol yn unol â gweithdrefnau LlCC, gan weithredu fel petai'n Is-adran i'r Adran Materion Gwledig;
   - gweithredu fel asiant ar ran Gweinidogion Cymru i gaffael neu i gael gwared ar goetiroedd;
   - cynorthwyo i gyflawni polisïau eraill LlCC, megis ynni adnewyddadwy ac adeiladu tai fforddiadwy;
   - rheoli gohebiaeth â Gweinidogion a mathau eraill o ohebiaeth, Cwestiynau i'r Cynulliad, a Chyflwyniadau a Phapurau Gwybodaeth i Weinidogion;
   - rheoli digwyddiadau coedwigaeth y mae Gweinidogion Cymru, uwch swyddogion a rhanddeiliaid yn gysylltiedig â nhw;
   - sicrhau manteision i'r cyhoedd gan berchnogion coetiroedd preifat drwy ddarparu cyngor technegol a chymorth grant drwy gyfrwng Glastir, y cynllun rheoli tir;
   - rheoleiddio'r sector coedwigaeth drwy gyhoeddi trwyddedau torri coed, ymchwilio i achosion o dorri coed yn anghyfreithlon, a gweinyddu Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth).

**Statws a Swyddogaethau'r Comisiwn Coedwigaeth**

3. Cafodd y cyfrifoldeb dros goedwigaeth ei ddatganoli gan Lywodraeth y DU yn 1999 fel rhan o'r rhaglen diwygio cyfansoddiadol, ond mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb o hyd dros goedwigaeth yn Lloegr a dros faterion coedwigaeth rhyngwladol. Mae CCC yn gwneud yn siŵr bod Gweinidogion Cymru yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu polisïau coedwigaeth y DU. Mae CCC hefyd yn gwneud yn siŵr bod Gweinidogion Cymru yn

ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros weithredu a gorfodi ymrwymiadau rhyngwladol ac Ewropeaidd sy'n effeithio ar goedwigaeth yng Nghymru.

4. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi ymddiried eu pwerau i Fwrdd Comisiynwyr. Nod y Bwrdd yw amddiffyn ac ehangu coedwigoedd a choetiroedd, a chynyddu eu gwerth i'r gymdeithas ac i'r amgylchedd. Bydd Gweinidogion Cymru yn enwebu dau Gomisiynydd anweithredol i gynrychioli buddiannau'r sector coedwigaeth yng Nghymru.

5. Mae'r pwerau hyn yn deillio'n bennaf o Ddeddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Iechyd Planhigion 1967. Mae gan y Comisiynwyr ddyletswydd gyffredinol i sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng datblygu coedwigo, rheoli coedwigoedd, cynhyrchu a chyflenwi pren, a gwarchod a gwella harddwch naturiol, planhigion, anifeiliaid a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig.

6. Mae gan y Comisiynwyr bwerau hefyd i atal rhag colli arwynebedd coed ac i amddiffyn coedwigoedd Prydain rhag plâu ac afiechydon drwy ddeddfwriaeth iechyd planhigion ac arolygu pren wedi'i fewnforio.

7. Wrth ymarfer eu pwerau, rhaid i'r Comisiynwyr gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddir iddynt gan Weinidogion a fydd yn gweithredu er budd y wlad wrth gynnal ac ehangu adnoddau coedwigaeth Prydain Fawr.

8. Mae cyllid gan Senedd y DU yn talu am weithgarwch y Comisiwn yn Lloegr ac am feysydd megis iechyd planhigion, polisïau rhyngwladol, safonau coedwigaeth, ymchwil, gwasanaethau corfforaethol ar y cyd â phensiynau staff sydd naill ai'n cael eu neilltuo neu, yn unol â chytundeb Gweinidogol, yn cael eu gweithredu ledled Prydain Fawr. Caiff y materion hyn eu rheoli drwy gytundebau â chorff llywodraethu'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghaeredin, ac yn 2011/12 bydd CCC yn talu £2.86 miliwn am ei gyfran o'r gwasanaethau hyn.

9. Mae Forest Research yn gweithredu fel asiantaeth sy'n gwasanaethu Prydain Fawr gyfan, er mwyn darparu arolygon ac ymchwil gwyddonol o safon a fydd yn sail i arferion a pholisïau coedwigaeth. Mae pob gwlad yn cyfrannu at y rhaglen ymchwil, ac yn sicrhau y caiff anghenion y wlad eu diwallu. Ar hyn o bryd, mae Forest Research yn cael oddeutu £10 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU, ond mae Llywodraeth y DU yn adolygu hynny ar hyn o bryd.

**Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch Rheolaeth Coedwig Gynaliadwy**

10. Mae LlCC wedi amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer coetiroedd a choed yn ei strategaeth, *Coetiroedd i Gymru*, ac mae'n disgwyl i CCC chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wireddu'r weledigaeth honno yn ei ystad coetiroedd ei hun ac mewn coetiroedd eraill ar y cyd ag eraill.

11. Mae *Coetiroedd i Gymru* yn seiliedig ar 5 thema. Coetiroedd a choed Cymru yw'r thema sylfaenol sy'n cynnal y 4 thema arall, sef:
    1. Ymateb i newid yn yr hinsawdd

2. Coetiroedd i bobl
3. Datblygu sector coedwig cystadleuol a chyfannol
4. Gwella’r ansawdd amgylcheddol

12. Rydym wedi mabwysiadu'r 4 thema hyn fel ein hamcanion corfforaethol, ac wedi datblygu 10 rhaglen gorfforaethol o fewn y themâu hyn er mwyn gallu cyflawni'r amcanion. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhagor o fanylion am y gwaith a wneir ym mhob un o'r rhaglenni hyn.

**Darpariaeth Weithredol**

13. CCC yw’r rheolwr tir unigol mwyaf yng Nghymru. Mae’n rheoli'r ystad goed gyhoeddus – sy’n 126,000 hectar – ar ran Gweinidogion Cymru. Mae hyn bron yn 6% o’r wlad ac yn 37% o’i choetiroedd.

14. CCC yw’r cynhyrchydd pren mwyaf yng Nghymru, wrth iddo farchnata oddeutu 770,000 metr ciwbig o bren sydd werth oddeutu £10 miliwn bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 65% o'r pren a gynhyrchir yng Nghymru, ac yn darparu sylfaen bendant ar gyfer diwydiant prosesu coed a phren sydd werth dros £400 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.

15. Rydym yn sefydliad masnachu, ac yn cynhyrchu bron i £20 miliwn o incwm bob blwyddyn drwy ein gweithgareddau masnachol. Mae hyn yn gyfystyr ag oddeutu hanner cyfanswm cost ein rhaglenni yng Nghymru. Mae LlCC yn darparu swm tebyg ar ffurf cymorth grant.

16. Rydym yn cyflogi’r hyn sy'n cyfateb i 394 o staff amser llawn. Dengys astudiaethau fod coedwigaeth yn cefnogi dros 22,00 o swyddi mewn busnesau coedwigaeth, prosesu coed a hamdden yng Nghymru. Mae bron pob un o’r swyddi gwyrdd hyn yn swyddi mewn mentrau bach neu ganolig (mae dros 80% ohonynt mewn busnesau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl), ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ardaloedd gwledig Cymru.

**Blaenoriaethau Strategol**

17. Mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Coetiroedd (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010) yn egluro’r hyn a fwriedir dros y 5 mlynedd nesaf i fwrw ymlaen i geisio cyrraedd nodau'r strategaeth 50 mlynedd. CCC yw’r corff arweiniol, neu’r cydgorff arweiniol, ar gyfer 53 o gamau o blith yr 83 yn y Cynllun.

18. Un cam allweddol yw cynyddu nifer y rhywogaethau coed a’r amrywiaeth ohonynt yng nghoetiroedd Cymru, a chael mwy o goetiroedd llydanddail a ddefnyddir eisoes (ar dir fferm yn aml iawn) sy’n cael eu rheoli’n weithredol. Mae cynnwys grantiau coetiroedd yn y cynllun Glastir newydd yn enghraifft o sut rydym yn gwneud hyn. Mae staff CCC yn darparu arbenigedd technegol tra mae LlCC yn rheoli’r system daliadau. Bydd y cynllun hwn yn chwarae rhan bwysig yn y broses o gyflawni bwriad LlCC i greu 100,000 hectar arall o goetiroedd yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

19. Rydym hefyd yn gweithio gyda LlCC ar ei chyfraniad at ddiwygio’r Polisi Amaethyddol Cyffredin er mwyn gwneud coedwigaeth yng Nghymru yn fwy cystadleuol yn economaidd.

Buom yn cynorthwyo LlCC i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Gwledig cyfredol drwy sicrhau y gallai mentrau coedwigaeth bach, a hynny am y tro cyntaf, gael gafael ar grantiau cyfalaf i'w cynorthwyo i ddatblygu. Credwn y gall coedwigaeth gyfrannu llawer mwy at feysydd eraill fel rhan o agwedd integredig ar ddatblygu gwledig.

20. Yn dilyn datganiad y Gweinidog yn ddiweddar ynghylch dyfodol yr ystad goed gyhoeddus, un flaenoriaeth yw datblygu adnodd dadansoddi portffolio i lywio penderfyniadau ynghylch ail-leoli'r ystad hon. Dangosodd y Gweinidog ei bwriad yn glir, sef na ddylid lleihau maint cyffredinol yr ystad gyhoeddus a'i bod yn dymuno gweld yr adnodd cyhoeddus gwerthfawr hwn yn cael ei reoli'n fwy deinamig. Felly, rydym yn datblygu meini prawf i gyflawni'r amcan hwn.

21. Rhoddodd y Gweinidog gyfarwyddyd hefyd i CCC ystyried cyfleoedd i fasnacheiddio'r ystad goed gyhoeddus ar raddfa ehangach, lle bo'r cyfleoedd hyn yn gydnaws ag egwyddorion rheolaeth coedwig gynaliadwy**.** Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, rydym yn datblygu gweithgareddau megis:

- datblygu cynlluniau pŵer dŵr bach,
- datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir ymhellach,
- datblygu'r farchnad ymhellach ar gyfer defnyddio pren fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy,
- defnyddio methan a geir mewn gwythiennau glo, a
- mentrau ar y cyd i ehangu ac i wella ein cyfleusterau hamdden, gan gynnwys y potensial i ddatblygu safleoedd cabanau mewn coedwigoedd yng Nghymru.

22. Yn olaf, ond gellid dadlau mai dyma yw ein blaenoriaeth bwysicaf, yw amddiffyn coed a choetiroedd Cymru rhag bygythiad cynyddol afiechydon a phlâu coedwigoedd. Mae'r achos o *Phytopthora ramorum* yn ne Cymru ar hyn o bryd wedi dangos natur ddifrifol y bygythiad hwn. Mae gweithio ar y cyd, arbenigedd technegol a mynediad at ymchwil wedi galluogi CCC i arwain camau pendant a llyfn er mwyn ceisio lleihau ei effaith. Bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu bygythiad pathogenau niweidiol o'r fath, ac er y bydd mwy o amrywiaeth o rywogaethau yn lleddfu hyn i ryw raddau, bydd angen i ni barhau i fod yn wyliadwrus er mwyn rheoli'r agwedd hon ar ein gwaith gan ddefnyddio'r dystiolaeth ymchwil orau sydd ar gael.

## Gwasanaethau Cyfun a'r Adolygiad o'r Opsiynau Darpariaethau Amgylcheddol

23. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a LlCC i ddynodi meysydd i gydweithio er mwyn bod yn fwy effeithlon a lleihau gwariant.


24. Mae gwelliannau wedi'u gwneud a chostau wedi'u harbed eisoes mewn meysydd fel caffael gwasanaethau o'r fath a chynnal a chadw adeiladau, adeiladu ffyrdd a llwybrau mynediad, cyfieithu i'r Gymraeg a darparu cyrsiau hyfforddi.

## Casgliad

25. Mae CCC yn cyfrannu at ddatblygu *Cymru Fyw*, sef y Fframwaith Amgylchedd Naturiol arfaethedig, yn ogystal â cham nesaf y gwaith a fydd yn ystyried achos busnes manwl dros sefydlu corff cyflwyno darpariaethau amgylcheddol newydd yng Nghymru.

**Trefor Owen, Cyfarwyddwr**
**Comisiwn Coedwigaeth Cymru**
**1 Mawrth 2011**

Mae'r diagram canlynol yn dangos sut y mae pob un o'r rhaglenni hyn yn berthnasol i'n hamcanion corfforaethol




Mae pob rhaglen wedi'i dyrannu i un o bedwar amcan corfforaethol (a ddangosir fel lliw tywyllach) ond, fel y dengys y cynllun corfforaethol hwn, mae pob rhaglen yn cyfrannu i fwy nag un amcan corfforaethol.

## 1. Ymateb i newid yn yr hinsawdd

**Rhaglen 1: Rheoli coetiroedd mwy amrywiol**
Gwariant o £10.4 miliwn yn 2010/11. Incwm o £10.4 miliwn. Cynnal yr ystad goed gyhoeddus sydd wedi'i hardystio'n annibynnol, gan ddefnyddio cynlluniau dylunio coedwig a chynlluniau ailstocio cymeradwy; marchnata'r rhaglen gwerthu coed flynyddol; rheoleiddio cwympo coed gan gontractwyr preifat; cyhoeddi trwyddedau cwympo coed ac ymchwilio i honiadau o gwympo coed yn anghyfreithlon; gweinyddu'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth); cydweithio â'n partneriaid Ewropeaidd i wella ein dealltwriaeth o'r modd y mae coed yn ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, a chydweithio â Llywodraeth y Cynulliad i integreiddio cymorth grantiau coetir yn y cynllun Glastir.

**Rhaglen 2: Diogelu ac iechyd coed**
Gwariant o £1.7 miliwn. Incwm o £0.1 miliwn. Bod yn gyfrifol am iechyd planhigion mewn coetiroedd presennol ac mewn stoc plannu newydd, ymchwilio i achosion o glefydau a sicrhau bod cynlluniau rheoli ar waith; cydweithio â'r asiantaeth *Forest Research* ar fygythiadau, sicrhau'r ffyrdd iawn o ddelio ag achosion a chydweithio â Bwrdd Rheoli Bioddiogelwch Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr ar strategaeth reoli gyffredin i Brydain gyfan.

**Rhaglen 3: Ynni adnewyddadwy**
Gwariant o £2.8 miliwn. Incwm o £3.8 miliwn. Cydweithio â deiliaid opsiynau i gyflwyno ffermydd gwynt mewn 6 ardal ar yr ystad gyhoeddus; darparu tua 100,000 m3 o danwydd coed bob blwyddyn; trwy WEBS 2, cynorthwyo i ddatblygu prosiectau tanwydd coed a chynghori Llywodraeth y Cynulliad ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu Bio-ynni.

## 2. Coetiroedd i bobl

**Rhaglen 4: Cyfranogiad a menter y cyhoedd**
Gwariant o £1.9 miliwn. Incwm o £0.6 miliwn. Cynorthwyo prosiectau cymunedol er mwyn annog cyfranogiad y cyhoedd yn y coetiroedd rydym yn eu rheoli; ymgynghori â chymunedau lleol wrth inni adolygu ein cynlluniau dylunio coedwigoedd a chefnogi'r gymdeithas coetiroedd cymunedol, Llais y Goedwig, drwy Coed Lleol. Gweithredu'r fframwaith i gynnwys rhagor o bobl yn y gwaith o reoli coedwigoedd cyhoeddus.

**Rhaglen 5: Hamdden a mynediad**
Gwariant o £4.5 miliwn. Incwm o £0.9 miliwn. Cyflawni ein cyfrifoldebau fel rheolwr tir ac awdurdod perthnasol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy; cynnal seilwaith hamdden a chanolfannau ymwelwyr er mwyn darparu profiadau hamdden safonol; hybu manteision i iechyd a lles drwy fynediad i'r ystad goed.

**Rhaglen 6: Dysgu seiliedig ar goetiroedd a sgiliau sector**
Gwariant o £1.5 miliwn. Incwm o £0.1 miliwn. Annog defnyddio coetiroedd fel adnodd dysgu i bob oed; darparu ymweliadau i 20,000 o blant bob blwyddyn a hyfforddiant i 900 o weithwyr proffesiynol ym maes addysg; hwyluso'r Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu, y Fenter Addysg y Coed ac Ysgol y Goedwig; darparu'r cynllun prentisiaeth fodern a chydweithio ag Estyn ar fanteision dysgu seiliedig ar goetiroedd.

**Rhaglen 7: Coetiroedd a choed trefol**
Gwariant o £0.1 miliwn. Cyd-drafod ag awdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio er mwyn rheoli coetiroedd a choed trefol.

## 3. Datblygu sector coedwig cystadleuol a chyfannol

**Rhaglen 8: Hyrwyddo coed a datblygu'r sector coedwig**
Gwariant o £0.4 miliwn. Bydd llawer o'r camau gweithredu yn cael ei arwain gan bartneriaid fel Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru; darparu rhagolygon dibynadwy o goed yng Nghymru i lywio buddsoddiadau gan y sector preifat; cefnogi'r gwaith o gynhyrchu Stocrestr Coedwig Genedlaethol o stoc tyfu Cymru; cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad i arfarnu cynlluniau sy'n gysylltiedig â choedwigaeth o dan y Cynllun Datblygu Gwledig; hyrwyddo gwerth coetiroedd bychain ar ffermydd ac annog rheoli'r coetiroedd hyn yn weithredol; rheoli'r prosiect CONSTRUCT i rannu arfer gorau o ran defnyddio coed mewn cartrefi ac adeiladau carbon isel a digarbon.

## 4. Gwella'r ansawdd amgylcheddol

**Rhaglen 9: Adfer a rheoli coetiroedd brodorol a chynefinoedd agored**
Gwariant o £6.0 miliwn. Incwm o £1.1 miliwn. Asesu, blaenoriaethu, cynllunio a gweithredu gwaith i adfer coetiroedd hynafol yn yr ystad gyhoeddus; annog adfer coetiroedd preifat drwy gymorth grant; nodi ardaloedd lle byddai adfer cynefinoedd agored yn arwain at fwy o fanteision amgylcheddol; cyflawni gofynion adrodd ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a chydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru i ddiweddaru Stocrestr Coetiroedd Hynafol Cymru.

**Rhaglen 10: Bioamrywiaeth, treftadaeth a thirwedd yn ôl safle**
Gwariant o £0.8 miliwn. Cyflawni Fframwaith Bioamrywiaeth Llywodraeth y Cynulliad a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswydd i helpu i atal colli bioamrywiaeth; rheoli safleoedd dynodedig; datblygu rhwydweithiau o gynefinoedd a chysylltiad rhwng cynefinoedd; dylunio tirwedd i ansawdd uchel; rheoli a lleihau difrod troseddol a throseddau bywyd gwyllt mewn coetiroedd; datblygu canllawiau i reoli rhywogaethau a warchodir gan Ewrop o dan Adran 42, a rhywogaethau pwysig eraill; cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Cadwraeth y Wiwer Goch yng Nghymru.